Rhod yr Awdur i Lyfrgell Gymreig Caerdydd

4.152

# GWYL DEWI, 1909.

*(A ganwyd yng Ngwyl Cymdeithas Gymreig Aberystwyth.)*

I.

I hoff goffa Dewi ni gadwn yr wyl,
A barddas lawn Awen ac araeth mewn hwyl;
"Nid byd, byd heb wybod;" "Arf dysg, goreu arf;"
Swyn cydfod eisteddfod twrf terfysg a darf.
*Cydgan*—Llam calon gwyllt Walia tra talo ei phlant,
Yn unfryd trwy'r holl-fyd, warogaeth i'r Sant.

II.

Mewn llengar Gymdeithas, gyweithas ei dysg,
Pob Cymro gan angerdd gwladgarwch a lysg;
Cyfaredd cynghanedd berorol yr iaith
Rydd nwyfiant ym mrwydrau milwriaeth ein taith.
*Cydgan*—Llam calon gwyllt Walia tra talo ei phlant,
Yn unfryd trwy'r holl-fyd, warogaeth i'r Sant.

III.

Gwrhydri'r marchogion, gorchestion y beirdd,
Hen urddas preswylwyr rhwysg cestyll fu'n heirdd,
Rhinweddau rhianedd, hir ddirwest y Saint,—
Ni chwiliwn goflyfrau eu bonedd a'u braint.
*Cydgan*—Llam calon gwyllt Walia tra talo ei phlant,
Yn unfryd trwy'r holl-fyd, warogaeth i'r Sant.

IV.

Lle treigla lli'r Ystwyth a'r Rheidol yn un,
Gan gwyso'r traeth graian, bwäog ei lun,
Ym mynwes llwyd Lannau, mynwentydd gwŷr Duw,
Mae'r ffydd a dysgeidiaeth mewn cydgerdd yn byw.
*Cydgan*—Llam calon gwyllt Walia tra talo ei phlant,
Yn unfryd trwy'r holl-fyd, warogaeth i'r Sant.

V.

Athronwyr athrawaidd fwngloddiant heb wall,
Disgyblion efrydant, a'u hawch yn ddi-ball;
Llyfrgelloedd, Colegau, Ysgolion y dref,
Fo'n gyntedd gwybodaeth, dan nodded y Nef.
*Cydgan*—Llam calon gwyllt Walia tra talo ei phlant,
Yn unfryd trwy'r holl-fyd, warogaeth i'r Sant.

VI.

Yr hen-wlad o newydd a gwyd yn ei hol,
A fu a adgyfyd ar fynydd a dôl;
Trwy byrth Aberystwyth arwrol ei bryd,
Llif ffyniant llenyddiaeth, hyfforddiant y byd.
*Cydgan*—Trwy byrth Aberystwyth arwrol ei bryd,
Llif ffyniant llenyddiaeth, hyfforddiant y byd.

JOHN YOUNG EVANS, Esq., M.A.
(Ieuan Mynyw).
Theol. Coll., Aberystwyth.

4/3/09

X205 221371